



Mynediad i lleoedd parcio i'r anabl

Lleoedd parcio i'r anabl yw focs siâp petryal sy'n cynnwys y geiriau ANABL/DISABLED ynghyd â'r arwydd rheoleiddio cysylltiedig a caniateir i ddefnyddwyr ceir anabl.

Fydd y lleoedd parcio i'r anabl DDIM am defnydd y person a wnaeth y gais amdano yn unig. Gall unrhyw yrrwr sy'n arddangos bathodyn glas dilys ei ddefnyddio.

Os hoffech wneud cais am le parcio i'r anabl ar Gefnffordd h.y. A40 A48 A477 neu A483, cysylltwch a Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru drwy ffonio 0300 123 1213

Sut i wneud cais

I gael eich ystyried ar gyfer lle parcio i'r anabl, mae'n rhaid i chi fodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae gennych Fathodyn Glas ac rydych yn derbyn cyfradd uwch elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA) / Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) sy'n cynnwys disgrifeddion penodol.
- Rydych yn defnyddio cadair olwyn ac yn gallu gwthio'r gadair y tu allan am bellter byr iawn yn unig
- Rydych yn dioddef problemau cylchrediad parhaol a sylweddol (e.e. heb goesau, diffygion o ran asgwrn cefn neu system nerfol ganolog) sy'n arwain at symudedd cyfyngedig difrifol a/neu ddibyniaeth barhaol ar galiperau/baglau penelin.

Gallwch hefyd wneud cais os ydych chi'n gyfrifol am yrru person anabl sy'n dal bathodyn glas a'ch bod chi'n byw yn yr un cyfeiriad. Fodd bynnag, ni fydddech yn llwyddiannus oni bai bod gennych dystiolaeth o'ch nam neu'ch anabled eich hun. Byddem yn disgwyl i yrrwr gyda corff abl barcio dwbl i godi neu osod y teithiwr anabl a symud y cerbyd wedyn.

Ynghyd â bodloni'r meini prawf, mae angen:

- bod diffyg lleoedd parcio ar eich stryd ac mae'n rhaid iddo fod yn ddiogel i ddarparu lle parcio.
- ni ddylai fod parcio oddi ar y ffordd ar gael i chi megis garej hygyrch neu lawr caled.
- lleoliad i'r bae i godi/ei osod o fewn 25 metr i'ch eiddo.

Nid yw'r cyngor yn codi tâl am y gwasanaeth hwn.

Sut yr ydym yn asesu eich cais

Oherwydd cyllideb gyfyngedig a galw mawr am leoedd parcio i bobl anabl, mae system flaenoriaethu wedi cael ei datblygu. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ffeithiau ac arsylwadau a gofnodwyd er mwyn asesu a blaenoriaethu pob cais.

Meini Prawf Asesu	Sgôr Uchaf
Parcio addas oddi ar y stryd	20 pwynt
Aliniad y ffordd, parcio a reoleiddir a diogelwch	10 pwynt
Rhaid i led y ffordd fod o leiaf 5.2 metr	10 pwynt
Dosbarth y Ffordd	10 pwynt
Arolwg parcio (4 ymweliad)	20 pwynt

Rhaid cael isafswm sgôr o 35 o bwyntiau cyn bod cais yn cael ei osod ar restr flaenoriaethu.

Caiff y rhestr ei gosod mewn trefn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Bydd y ceisiadau â'r sgorau uchaf yn cael gwybod eu bod wedi cyrraedd cyfnod ymgynghori'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.

Bydd ceisiadau aflwyddiannus sydd â sgôr yn llai na 35 o bwyntiau yn cael gwybod a bydd y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

Byddwn yn:

- ymweld â'ch cartref ar amseroedd gwahanol bedair gwaith a byddwn yn asesu pa mor anodd ydyw i barcio ar eich stryd.
- gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus â gwasanaethau argyfwng, grwpiau mynediad pobl anabl lleol, cyngorau sir lleol ynghyd â pherchnogion a phreswylwyr eiddo cyfagos.

Noder y gall hyn fod yn broses hir iawn gan dim ond unwaith y flwyddyn y caiff y rhestr o geisiadau eu hadolygu. Dibynnu pryd byddwch chi'n gweud eich cais, gall cymryd hyd at 12 mis.

Symud Tŷ

Os ydych chi'n symud tŷ ac mae gennych Lleoedd parcio i'r anabl os nad oes unrhyw person arall yn y lleoliad gyda bathodyn glas sydd yn gallu defnyddio'r lle, byddwn yn trefnu iddo gael ei waredu.

Ffordd sydd heb-mabwysiadu

Os na yw'r ffordd wedi ei fabwysiadu byddai'n rhaid i chi gael caniatâd / cymeradwyaeth gan bob cartref sy'n byw ar y ffordd heb ei fabwysiadu.

Gorfodi

Mae marciau sydd â Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn orfodadwy gan y swyddogion gorfodi sifil.

Apelio

Os ydych am apelio yn erbyn canlyniad eich cais gallwch gysylltu ag Alan Howells 01267 228140

AEHowells@carmarthenshire.gov.uk

Rhaid gwneud hyn o fewn 28 diwrnod or penderfyniad.

Return your application:

Rheoli Traffig, Cyngor Sir Gar, Parc Myrddin, Caerfyrddin SA31 1HQ

RheoliTraffig@carmarthenshire.gov.uk



CAIS AM LE PARCIO I'R ANABL

Teitl	
Enw Cyntaf	
Cyfenw	
Dyddiad Geni	
Cyfeiriad	
Rhif Ffôn	
E-bost	
Pam ydych chi'n gwneud cais am le parcio i'r anabl?	
A oes gennych dramwyfa/llawr caled neu le parcio arall ar hyn o bryd?	ydy/nac ydy
Os nad oes, a oes lle ar gyfer parcio oddi ar y stryd ger yr eiddo?	ydy/nac ydy
A yw'r lle parcio arfaethedig i'r anabl y tu allan i gartref y person anabl?	ydy/nac ydy
Pwy sy'n berchen ar yr eiddo? <ul style="list-style-type: none">• preswlydd• landlord preifat• yr awdurdod lleol• cymdeithas tai	
Ai'r person anabl sy'n gyrru'r cerbyd?	ydy/nac ydy
A yw'r gyrrwr anabl yn mynd mewn i'r cerbyd drwy'r cefn?	ydy/nac ydy
Manylion y cerbyd <ul style="list-style-type: none">• math a model• rhif cofrestru	

A yw'r cerbyd wedi'i gofrestru yn enw'r gyrrwr anabl?	
Sawl cerbyd sydd wedi'i gofrestru yn yr eiddo hwn?	
A yw'r person anabl yn ddeiliad bathodyn glas?	ydy/nac ydy
Os oes, darparwch <ul style="list-style-type: none"> cyfeirnod y bathodyn glas dyddiad dod i ben Mae angen tystiolaeth bellach o un o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Datganiad Hawliad Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yr Adran Gwaith a Phensiynau NEU Llythyr dyfarnu Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel Veterans UK ar bapur pennawd swyddogol 	<hr/> <hr/> <input type="text"/> <input type="text"/>

- ✓ Rwyf yn cadarnhau bod y manylion a ddarperir yn gywir
- ✓ Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen y canllawiau ar gyfer gwneud cais am le parcio i'r anabl ar eich wefan <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/ymgeisio-am/mynediad-i-lleoedd-parcio-ir-anabl/>

Llofnod yr ymgeisydd _____ Dyddiad _____

Gallwch ebostio i: RheoliTraffig@sirgar.gov.uk

Gwallwch postio i: Cyngor Sir Caerfyrddin, Trafnidiaeth a Phrifyrdd, Adran Lle a Seilwaith, Rheoli Traffig, Adeilad 2, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ.